**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**17 Ebrill 2013**

# ADRODDIAD GWYBODAETH GAN BENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

## CYFLWYNO CYFOETH NATURIOL CYMRU (CNC)

## 1 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am gyflwyniad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar 1 Ebrill 2013. Bydd y corff unigol hwn yn cymryd lle Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Bydd yr adroddiad yn hysbysu'r Aelodau am y trefniadau a osodwyd ar gyfer ymgynghoriad angenrheidiol gyda'r corff unigol mewn perthynas â cheisiadau cynllunio.

## 2 CEFNDIR

2.1 Penderfynodd Gweinidogion Cymru greu Un Corff Amgylcheddol unigol yng Nghymru yn 2011. Ers hynny mae gwaith wedi'i wneud i uno'r sefydliadau a enwyd ym mharagraff 1.1 uchod. O'r 1 Ebrill 2013 mae'r corff unigol hwn wedi bod yn weithredol.

2.2 Un o'r rhesymau pam y crëwyd un corff oedd symleiddio'r gwasanaethau gan ei gwneud yn haws i gwsmeriaid, cyflenwyr a phartneriaid y sefydliadau ddelio â'r materion perthnasol. Mae hyn yn cynnwys cyswllt gyda'r Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl).

2.3 Fel y cyfryw, y bwriad yw sicrhau un ymgynghoriad gyda CNC ar fathau penodol o gynllunio a derbyn un ymateb yn cynnwys y materion perthnasol. Dylai'r ymateb hwn roi barn 'cyffredinol' gan bwyso a mesur materion all fod yn anghyson a darparu argymhelliad clir i'r ACLl.

2.4 Gan mai dim ond yn ddiweddar y mae'r corff newydd wedi bod ar waith bydd nifer o'r cysylltiadau sydd wedi'u sefydlu eisoes rhwng y Swyddogion a'r mudiadau yn parhau. Er diben cyfraniad i geisiadau cynllunio a'r ymatebion tebygol gan CNC, mae'r Swyddogion yn gobeithio y gellid parhau i ddarparu ymatebion fel yr arfer ar adroddiadau'r Pwyllgor cynllunio yn cynnwys y materion perthnasol.

2.5 Mae CNC wedi datgan mai'r bwriad yw sicrhau eu bod yn cadw at amseroedd ymateb statudol gydag ymgynghoriadau cynllunio ac y bydd 'un llais' yn cael ei ddarparu. Bydd Swyddogion ACLl

yn sicrhau bod yr ymatebion a dderbyniwyd yn cael eu cyflwyno fel yr arfer yn adroddiadau perthnasol y Pwyllgor.

2.6 Mae nodyn cyfarwyddiadau wedi'i gynhyrchu gan CNC wedi'i atodi fel Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

## 3 ARGYMHELLION

3.1 Aelodau i nodi'r trefniadau newydd fel y gosodwyd hwynt uchod.